

Tasg 3

Gwir neu gelwydd?

Rydych chi'n mynd i ysgrifennu eitem newyddion am anifail yn gwneud rhywbeth rhyfedd. Does dim rhaid i chi ysgrifennu am stori wir.

1. Chwiliwch am wybodaeth ar y we os ydych chi eisiau.
2. Ysgrifennwch yr eitem newyddion. Rhaid i chi ddweud:
 - pa anifail
 - enw'r anifail
 - ble
 - pryd
 - beth ddigwyddodd
 - unrhyw wybodaeth arall.
3. Darllenwch yr eitem i'r grŵp.
4. Rhaid i'r grŵp benderfynu:

Ydy'r eitem newyddion
yn wir?

NEU

Ydy'r eitem newyddion
yn gelwydd?

Geirfa

gwir	true	penderfynu	(to) decide
gelwydd	a lie		